

Dyddiad | Date: 9 Ionawr 2023

Pwnc | Subject: Adolygiad blynyddol o Benderfyniad 2023-24

Annwyl bawb,

Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn adolygu ei Benderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau bob blwyddyn i sicrhau bod y cymorth a ddarperir i'r Aelodau yn parhau i fod yn briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau y bydd lefel y taliadau a'r system cymorth ariannol i'r Aelodau yn eu galluogi i gyflawni'u dyletswyddau fel Aelodau, yn ogystal â sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

Eleni, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn costau byw, er enghraifft costau ynni, a phwysau chwyddiant ar yr economi. Mae gan bwysau o'r fath oblygiadau i gostau busnes yr Aelodau, gan gynnwys costau rhedeg swyddfa etholaethol neu ranbarthol. Bydd y cynnydd mewn costau byw wedi rhoi pwysau ariannol ar staff cymorth yr Aelodau, fel yn achos cynifer o bobl eraill yng Nghymru, yn enwedig y rheini ar gyflogau is.

Y farn gyffredinol yw y bydd cyfradd chwyddiant yn dechrau gostwng yn y flwyddyn ariannol i ddod. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod y bydd pwysau presennol chwyddiant yn parhau i effeithio ar gyllidebau a chostau byw yr Aelodau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fe wnaeth y Bwrdd adolygu'r darpariaethau yn y Penderfyniad yn y cyd-destun hwn i sicrhau eu bod yn briodol. Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o sefyllfa ehangach cyllid cyhoeddus Cymru ac y bydd yr Aelodau'n dymuno chwarae eu rhan i gyflawni arbedion lle bo modd.

Mae'r Bwrdd eisoes wedi cymryd camau i helpu i liniaru effeithiau chwyddiant uchel ar yr Aelodau a'u staff. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol hon, mae cynnydd o £1,000 yn y lwfans sydd ar gael i'r Aelodau dalu costau rhedeg eu swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr, a hynny er mwyn sicrhau nad oes unrhyw Aelod yn canfod eu hunain yn methu â pharhau i redeg eu swyddfeydd oherwydd cynnydd mewn costau. Mae staff cymorth wedi cael cyfandaliad o £600 yr un (pro-rata) i helpu i dalu costau byw uwch.

Wrth adolygu'r Penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2023-24), fe wnaeth y Bwrdd ystyried yr egwyddorion arweiniol a nodir yn [Strategaeth y Bwrdd ar gyfer 2021-2026](#), sef:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru; a
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

Hefyd, ystyriwyd sylwadau a wnaed gan yr Aelodau a'u staff yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys y dylid cynyddu'r lwfans sydd ar gael i gyflogi staff i adlewyrchu'r twf yng nghymhlethdod llwyth gwaith yr Aelodau.

Nododd yr adolygiad nifer o newidiadau y mae'r Bwrdd yn dymuno'u gwneud i'r Penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r newidiadau arfaethedig hynny wedi'u nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynigion, a hynny er mwyn helpu i lywio'i benderfyniadau terfynol ar newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2023-24.

Byddai'r Bwrdd hefyd yn croesawu'ch sylwadau ar unrhyw effeithiau o safbwynt cydraddoldeb a allai ddeillio o gynigion yr ymgynghoriad, er enghraifft:

- a allai cynigion yr ymgynghoriad fod ag unrhyw oblygiadau i bobl sy'n uniaethu ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig a nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- a ellid newid cynigion yr ymgynghoriad i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol i bobl sy'n uniaethu ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig a nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Noder mai'r nodweddion gwarchoddedig fel y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu diffinio yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan 5pm ar 9 Chwefror. Mae'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r Penderfyniad ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori yn dynn a hoffem allu rhoi cymaint o rybudd â phosibl i'r Aelodau, eu staff a'u Grŵp o'n penderfyniadau terfynol, er mwyn caniatáu cynllunio'r gyllideb cyn y flwyddyn ariannol newydd. Am y rheswm hwn, byddem yn gwerthfawrogi pe bai modd anfon unrhyw ymateb erbyn 9 Chwefror fan bellaf. Caiff yr holl ymatebion eu trin yn unol â'n Polisi Preifatrwydd. Dylech anfon unrhyw ymatebion at taliadau@senedd.cymru.

Caiff y Penderfyniad terfynol ar gyfer 2023-24 ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Dymuniadau gorau,



Dr Elizabeth Haywood,

Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Atodiad A: Adolygiad blynyddol o Benderfyniad 2023-24

Cyflwyniad

1. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol adolygu'r Penderfyniad yn unol â'r egwyddorion arweiniol a nodir yn [Strategaeth y Bwrdd ar gyfer 2021 – 2026](#).
2. Mae'r Bwrdd wedi gwneud cyfres o gynigion ar gyfer newidiadau i Benderfyniad 2023-24, sydd wedi'u rhestru yn yr atodiad hwn. Mae'r cynigion wedi'u nodi yn y drefn y maent yn ymddangos yn y Penderfyniad.
3. Fe'ch gwahoddir i roi sylwadau ar y cynigion hyn drwy ysgrifennu at y Bwrdd gyda'ch ymateb, a'i anfon ar e-bost i taliadau@senedd.cymru erbyn diwedd 9 Chwefror fan bellaf. Bydd pob ymateb yn cael ei drin yn unol â'n Polisi Preifatrwydd sydd wedi'i nodi yn Atodiad 3 i'r ddogfen hon.
4. Mae'r Penderfyniad yn nodi y bydd cyflogau'r Aelodau (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol) yn cael eu haddasu'n flynyddol ym mis Ebrill yn unol â ffigur yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cytunodd y Bwrdd ar ddechrau'r Chweched Senedd, er mwyn osgoi addasiadau ansefydlog i gyflogau o ganlyniad i amrywiad ym mynegai ASHE, fod mecanwaith cap a cholera yn berthnasol, gan sicrhau bod cyflogau'n cael eu haddasu'n flynyddol heb fod yn is na sero y cant, a heb fod yn uwch na thri y cant.
5. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae llawer o'r lwfansau a nodir yn y Penderfyniad wedi'u cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ("y Mynegai"), fel arfer drwy gymhwyso ffigur y Mynegai ar gyfer y mis Medi blaenorol. Mae'r Mynegai ar gyfer mis Medi yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y DU i uwchraddio Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol a Threthi Busnes, gan ddarparu rhywfaint o gysondeb â chynnydd eraill mewn gwariant. Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol hon (2022-23), oherwydd cynnydd sydyn mewn chwyddiant ar yr adeg yr oedd lwfansau'n cael eu hystyried, penderfynodd y Bwrdd ddefnyddio'r gyfradd ddiweddaraf o'r Mynegai oedd ar gael – sef 5.5 y cant – o fis Chwefror 2022, yn hytrach na ffigur y Mynegai ar gyfer mis

Medi – sef 3.1 y cant – i gynyddu llawer o lwfansau, ar wahân i'r Costau Swyddfa a Chysylltu, a gynyddwyd 3.1 y cant.

6. Eleni, bydd y Bwrdd yn dilyn ei ddull blaenorol wrth gynnal yr Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad, ac mae'r cynigion ar gyfer cynyddu'r rhan fwyaf o lwfansau yn unol â'r Mynegai ar gyfer Medi 2022, sef 10.1 y cant.

Pennod 2: Rheolau cyflwyno ceisiadau

2.3. Rheolau cyflwyno ceisiadau

Cefndir

7. Mae'r Penderfyniad yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gael tri dyfynbris ar gyfer nwyddau neu wasanaethau o werthoedd amrywiol, a darparu'r dyfynbrisiau hynny.

8. Er enghraifft, mae'r Penderfyniad yn nodi o dan **paragraff 2.3.3 (rheolau cyflwyno ceisiadau); paragraff 6.2.3 (costau swyddfa)** a **paragraff 8.1.7 (prynu offer mewn perthynas â chymorth i bleidiau gwleidyddol)** bod yn rhaid i unrhyw eitemau sydd â gwerth oes o £750 neu fwy gael eu cyfeirio at y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i'w cymeradwyo, ynghyd ag o leiaf dri dyfynbris cystadleuol cyn mynd i unrhyw wariant neu gontract. Fodd bynnag, o dan baragraff **6.6.1 (lechyd a Diogelwch)**, mae'n ofynnol i Aelodau ddarparu tri dyfynbris ysgrifenedig i ariannu unrhyw wariant iechyd a diogelwch sy'n fwy na £500.

9. Mae'r Bwrdd yn cynnig gwneud newidiadau i'r Penderfyniad fel bod cysondeb o ran gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n ofynnol i Aelodau ddarparu tri dyfynbris ar eu cyfer, a hefyd i gynyddu'r gwerth hwnnw. Y nod yw lleihau'r baich gweinyddol ar Aelodau a'u staff tra'n cadw at egwyddorion tryloywder, atebolrwydd a gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae'r cynnig hwn yn unol â nod cyffredinol y Bwrdd i symleiddio'r Penderfyniad.

Cynnig 1 – Swm gwariant sy'n gofyn am dri dyfynbris ysgrifenedig

10. Mae'r Bwrdd yn cynnig gwneud newidiadau i'r Penderfyniad i adlewyrchu'r angen am dri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer unrhyw wariant ar nwyddau neu wasanaethau gydag amcangyfrif o werth dros £1,000.

11. Byddai'r Bwrdd yn gwerthfawrogi eich barn ynghylch a yw'r trothwy hwn ar gyfer yr angen i gael tri dyfynbris ysgrifenedig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng effeithlonrwydd gweinyddol, cywirdeb ariannol a gwerth am arian.

2.5. Cymorth o gronfeydd canolog sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 – Lwfans Gweithio Gartref

Cefndir

12. Penderfynodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2020 sefydlu Lwfans Gweithio Gartref ("y Lwfans") mewn ymateb i gyfyngiadau COVID-19 a oedd ar waith ar y pryd. Mae'n galluogi Aelodau i dalu lwfans di-dreth o hyd at £6 yr wythnos i'w Staff Cymorth (neu £26 y mis ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu talu'n fisol) er mwyn talu costau ychwanegol gweithio gartref, yn seiliedig ar arweiniad Cyllid a Thollau EF ("CThEF"). Mae'r Lwfans yn cael ei leihau pro rata ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan amser neu os yw staff yn absennol (e.e. ar wyliau neu absenoldeb salwch). Ni all staff y telir y Lwfans iddynt hawlio rhyddhad treth trwy CThEF ar gostau gweithio gartref. Telir y Lwfans o gronfeydd canolog.

13. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Penderfyniad ar gyfer y Lwfans hwn. Yn hytrach, gosododd y Bwrdd adran 2.5 yn y Penderfyniad i ddarparu mecanwaith i'r Bwrdd wneud y darpariaethau hynny y mae'n eu hystyried yn briodol i gefnogi Aelodau gyda chostau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig. Yn unol â'r adran hon, cyflwynodd y Bwrdd y Lwfans a lwfansau amrywiol eraill, er enghraifft y Lwfans Dychwelyd i'r Swyddfa (sydd bellach wedi dod i ben).

14. Mae ffyrdd o weithio wedi newid yn sylweddol ar ôl y pandemig. Er bod rhai o staff yr Aelodau wedi parhau i weithio yn y swyddfa, mae Aelodau eraill wedi galluogi eu staff i barhau i weithio gartref – neu gymysgedd hyblyg o weithio gartref ac yn y swyddfa – yn unol ag anghenion busnes yr Aelodau.

15. Mae'r Bwrdd yn cynnig parhau i sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer gweithio gartref, ond yn hytrach na mesur penodol ar gyfer COVID-19, byddai hwn yn fesur parhaus i gefnogi trefniadau gweithio gartref neu waith hybrid i dalu costau ychwanegol ar gyfer aelwydydd staff sy'n gweithio gartref. Mater i'r Aelod, fel y cyflogwr, yw penderfynu a all aelod o staff weithio gartref.

16. Y cynnig yw parhau i ganiatáu i Aelodau hawlio'r swm o £6 yr wythnos ar ran eu staff, sef yr uchafswm lwfans di-dreth a ganiateir gan CThEF.

17. Mae'r Bwrdd yn cynnig y bydd y Lwfans yn cael ei dalu'n fisol, mewn ôl-daliadau, ar yr amod bod yr Aelodau'n fodlon bod yr aelod staff perthnasol yn bodloni'r ddau amod a nodir yng nghanllawiau CThEF. Ni fydd y taliad ar sail pro rata.

18. Bydd hyn yn golygu terfyn ar yr holl fesurau mewn ymateb i COVID-19 yn y Penderfyniad. O'r herwydd, y cynnig yw dileu adran 2.5 o'r Penderfyniad (cymorth o'r cronfeydd canolog sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19).

Cynnig 2 – Lwfans gweithio gartref

19. Mae'r Bwrdd yn cynnig:

- dileu adran 2.5 o'r Penderfyniad, sef cymorth o'r cronfeydd canolog sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19;
- cyflwyno darpariaeth newydd ym Mhennod 7 a Phennod 8 o'r Penderfyniad sy'n darparu ar gyfer Lwfans Gweithio Gartref o hyd at £6 yr wythnos (neu £26 y mis ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu talu'n fisol mewn ôl-daliadau) tuag at gostau ychwanegol gweithio gartref ar gyfer Cymorth i Aelodau Staff a Staff Cymorth Grŵp. Ni fydd hyn ar sail pro rata;
- talu'r lwfans hwn o gronfeydd canolog.

20. Mae'r cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr (Aelodau ac Arweinwyr y Pleidiau) sy'n dymuno hawlio'r lwfans hwn i fodloni eu hunain bod amodau CThEF wedi'u bodloni. Hynny yw, bod gan yr aelod staff perthnasol drefniadau ar gyfer gweithio gartref ac yn gweithio gartref yn rheolaidd.

Pennod 3: Tâl Aelodau

21. Mae'r Penderfyniad yn nodi y bydd cyflogau'r Aelodau (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol) yn cael eu haddasu'n flynyddol ym mis Ebrill yn unol â ffigur yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cytunwyd – er mwyn osgoi addasiadau ansefydlog i gyflogau o ganlyniad i amrywiad ym mynegai ASHE – fod mecanwaith 'cap a choler' yn berthnasol, gan sicrhau bod cyflogau'n cael eu haddasu'n flynyddol heb fod yn is na sero y cant, a heb fod yn uwch na thri y cant.

22. Cynyddodd cyflogau aelodau 0.4 y cant ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol hon (2022/23) yn unol ag ASHE. Cyn hynny, roedd y cyflogau wedi'u rhewi ers mis Ebrill 2020.

23. Cyhoeddwyd ffigur ASHE ar gyfer Cymru ar 3 Tachwedd 2022. Y ffigur cyhoeddedig yw 7.3 y cant.¹

24. Wrth ystyried cymhwyso'r mynegeio blynyddol o 3 y cant i gyflogau Aelodau ar gyfer 2023/24, caiff y Bwrdd ei sicrhau ei fod yn parhau'n briodol, gan ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol gan gynnwys pwysau costau byw, ymyriadau'r llywodraeth a phenderfyniadau ar gyflogau yn ôl cyrff sector cyhoeddus eraill yn ogystal â'r cyd-destun cyllid cyhoeddus heriol yng Nghymru.

Cyflogau'r Aelodau

25. Nid yw'r Bwrdd yn cynnig unrhyw newid i'r Penderfyniad mewn perthynas â chyflogau Aelodau. Yn unol â'r ddarpariaeth fynegeio flynyddol, bydd cyflogau Aelodau'n cynyddu dri y cant ym Mhenderfyniad 2023-24. Ar hyn o bryd, cyflog sylfaenol Aelod yw £67,920. Bydd cynnydd o dri y cant yn arwain at gyflog sylfaenol o £69,958. Bydd unrhyw gynnydd canrannol a gymhwysir i gyflog sylfaenol Aelod hefyd yn berthnasol i gyflogau Deiliaid Swydd Ychwanegol a nodir ym mharagraff 3.1.4 o'r Penderfyniad (wele Atodiad 1).

Pennod 3A: Cymorth Ychwanegol – Cymorth i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill

Cefndir

26. Caiff Aelod hawlio ad-daliad costau hyd at uchafswm o £297 y mis ar gyfer gofalu am ei blant/phlant neu ddibynyddion mewn oed o dan baragraff 3A.3.2.

Cynnig 3 – Cymorth i Aelodau â chyfrifoldebau gofal

27. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau gofal ac mae'n cynnig cynyddu'r terfyn ar y costau y gellir eu had-dalu i Aelodau â chyfrifoldebau gofalu o dan adran 3A.3.2 yn ôl cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr ("y Mynegai") ym mis Medi 2022. Byddai hyn yn cynyddu'r gyfradd o £297 i £327.

¹ **Enillion ac oriau a weithir, rhanbarth y DU fesul sector cyhoeddus a phreifat** – gweler tabl 25.7a (Tâl gros blynyddol 2022 – gweithwyr amser llawn yng Nghymru)

Pennod 4: Gwariant ar Lety Preswyl

Cefndir

28. Mae lwfansau Gwariant ar Lety Preswyl yn rhoi cymorth i Aelodau dalu'r costau ychwanegol o aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartrefi pan fyddant ar fusnes y Senedd.

Llety dros nos yn ardal Caerdydd

29. Mae Adran 4.3 yn caniatáu i Aelodau "ardal ganolog" hawlio hyd at £7,220 y flwyddyn am lety dros nos yn ardal Caerdydd. Yr uchafswm y gellir ei hawlio ar gyfer bob noson o aros mewn gwesty (gan gynnwys brechwast a pharcio) yw £100. Gellir hawlio'n uwch na'r terfyn hwn mewn amgylchiadau eithriadol, gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

30. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2022-23), cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r lwfansau ar gyfer yr ardal ganolog 5.5 y cant (ffigur y Mynegai ar gyfer Chwefror 2022). Yn flaenorol, roedd y lwfans gwariant ar lety preswyl ar gyfer yr ardal ganolog wedi aros yr un fath ers blwyddyn ariannol 2019-20.

31. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod Aelodau wedi cael anhawster mewn rhai achosion i gael gafael ar westy ym Mae Caerdydd ar y gyfradd hon. Fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried ochr yn ochr ag ymchwil a ystyriwyd gan y Bwrdd, sy'n dangos bod ystafelloedd gwesty fel arfer ar gael ym Mae Caerdydd o fewn y lwfans presennol. At hynny, mae'r nifer o weithiau y mae Aelodau wedi gofyn am ganiatâd i fynd dros y lwfans yn isel (dau yn y flwyddyn ariannol hon).

Cynnig 4 – Llety dros nos yn ardal Caerdydd

32. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu cyfradd y lwfans ar gyfer llety dros nos yn ardal Caerdydd yn ôl cyfradd y Mynegai ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant. Byddai hyn yn cynyddu'r lwfans o £100 i £110. Cyfanswm y lwfans blynyddol – wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newid i'r lwfans nos – fydd £7,920. Mae hyn wedi'i gyfrifo ar sail bod Aelodau "ardal ganolog" yn gallu aros dwy noson mewn gwesty yng Nghaerdydd ar gost o £110 y noson am bob wythnos y mae'r Senedd yn eistedd (yn seiliedig ar 36 wythnos y flwyddyn pan fydd y Senedd yn eistedd).

Llety arall dros nos y tu allan i ardal Caerdydd

33. Yr uchafswm y gellir ei hawlio ar gyfer bob noson o aros mewn gwesty (gan gynnwys brechwast a pharcio) y tu allan i ardal Caerdydd (ac eithrio Llundain) yw £100.

Gellir hawlio'n uwch na'r terfyn hwn mewn amgylchiadau eithriadol, gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

34. Gall aelodau hawlio £158 am gost gwesty yn Llundain. Gellir mynd y tu hwnt i hyn gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cymorth Busnes i'r Aelodau, a fydd ond yn cael ei ganiatáu mewn amgylchiadau eithriadol. Bu un achos o Aelod yn hawlio mwy na'r gyfradd o £158 yn y flwyddyn ariannol hon.

35. Mae'r Bwrdd wedi gwranddo ar bryderon yr Aelodau ynghylch argaeledd gwesty yn Llundain ar y gyfradd bresennol o £158. Yn benodol, o ganlyniad i'r gyfradd nid oedd Aelodau wedi gallu dod o hyd i westy o fewn y lwfans yn agos i'r man lle'r oedd angen iddynt fod, wnaeth arwain at gynnydd mewn costau teithio.

Cynnig 5 – Llety dros nos y tu allan i Gaerdydd

36. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu cyfradd y lwfans ar gyfer llety dros nos y tu allan ardal Caerdydd (ac eithrio Llundain) yn ôl cyfradd y Mynegai ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant. Byddai hyn yn cynyddu'r lwfans o £100 i £110.

37. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu cyfradd y lwfans fesul noson ar gyfer llety dros nos yn Llundain yn unol â chyfradd y Mynegai ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant. Byddai hyn yn cynyddu'r lwfans fesul noson o £158 i £174.

Aros dros nos gyda ffrind neu deulu

38. Mae paragraff 4.5.8 o'r Penderfyniad yn datgan fel a ganlyn:

'Pan fydd Aelod, yn hytrach nag aros mewn gwesty, yn aros dros nos gyda chyfaill neu berthynas, caiff yr Aelod hawlio cyfradd wastad o £25 y noson.'

39. Mae CThEF wedi cynghori fel a ganlyn:

Cyfradd aros gyda theulu/ffrindiau

A benchmark rate has not been set for a scale rate payment for staying with friends and family. Furthermore, HMRC no longer accepts that a scale rate payment for this purpose should be agreed with an employer.

Cynnig 6 – Llety dros nos gyda ffrind neu deulu

40. Mae'r Bwrdd yn cynnig tynnu'r lwfans llety dros nos gyda ffrindiau a theulu yn ôl, yn unol â chanllawiau CThEF.

Lwfans ardal allanol

Cefndir

41. Mae Aelodau y mae eu prif gartrefi wedi'u lleoli o fewn yr 'Ardal Allanol' yn gallu hawlio treuliau mewn perthynas ag eiddo yn ardal Caerdydd, hyd at uchafswm o £10,260 y flwyddyn neu £855 y mis. At hynny, gall Aelodau hawlio costau cysylltiedig fel treth gyngor (hyd at Fand F Treth y Cyngor), biliau cyfleustodau ac ati yn ogystal â rhent (gan gynnwys unrhyw dâl rheoli neu rent tir).

42. I gydnabod y cynnydd mewn chwyddiant, cynyddwyd cyfraddau lwfans gwariant ar lety preswyl yr 'Ardal Allanol' yn y Penderfyniad ar gyfer 2022-23 5.5 y cant (ffigur y Mynegai ar gyfer Chwefror 2022). Fel arall, nid oeddent wedi newid ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2020-21. Cynyddwyd y lwfans hwn yn flaenorol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, gan 2.4 y cant (yn unol â'r Mynegai ym mis Medi 2018).

43. Er mwyn llywio penderfyniadau ar y gyfradd hon, ystyriodd y Bwrdd brisiau misol ar gyfer fflatiau un a dwy ystafell wely sy'n cael eu hysbysebu i'w rhentu yn ardal Bae Caerdydd. Dangosodd y dadansoddiad ar gyfer y flwyddyn hyd at 14 Tachwedd 2022, heb gynnwys y 10 y cant drutaf o fflatiau:

- cost gyfartalog fflat un ystafell wely oedd £819 y mis calendr (cynnydd o 9.7 y cant o £747). Y gost ganolrifol oedd £825;
- cost gyfartalog fflat dwy ystafell wely oedd £1,094 (i fyny 19.3 y cant), canolrifol £1,100.

44. Mae pris rhent cyfartalog fflat un ystafell wely a hysbysebwyd ar Rightmove wedi dangos tuedd gynyddol dros y flwyddyn. Roedd ffigurau Homelet a Zoopla yn dangos tueddiadau tebyg ar gyfer codiadau newydd mewn prisiau rhentu. Yn ôl gwybodaeth arall am y farchnad, y cynnydd ar gyfer yr holl gartrefi ar rent – p'un ai bod pobl wedi symud neu beidio – oedd 3.6 y cant ar gyfer y DU a 2.7 y cant ar gyfer Cymru (dyma ffigurwr mis Medi gan y [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)).

45. At hynny, bu'r Bwrdd yn ystyried y dystiolaeth o bwysau ar renti yn ardal Bae Caerdydd, a'r angen i'r lwfans rhentu adlewyrchu tueddiadau penodol y farchnad yn yr ardal.

Cynnig 7 – Lwfans ardal allanol

46. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r lwfans misol a blynyddol ar gyfer llety dros nos i'r rheini y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol yn ôl cyfradd y Mynegai ym mis Medi 2022 gan 10.1 y cant. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y lwfans misol o £855 i £940 a chynnydd yn y lwfans blynyddol o £10,260 i £11,280.

Lwfans ardal allanol ar gyfer y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu

Cefndir

47. Mae darpariaeth o dan baragraff 4.4.3 (h) i Aelodau hawlio hyd at £1,520 i dalu costau gofalu am rywun sy'n ddibynnydd ac sy'n preswyllo fel arfer gyda'r Aelod, yn ychwanegol at y lwfans llety. Cyflwynwyd y Lwfans Gofalwr hwn ar gyfer y Bumed Senedd ac roedd wedi aros ar £1,440 y flwyddyn tan 2022-23. Ystyriwyd y lwfans hwn yn ystod yr Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a chytunodd y Bwrdd i gynyddu'r lwfans ar gyfer y rheini â chyfrifoldebau gofalu gan 5.5 y cant (ffigur y Mynegai ym mis Chwefror 2022), gan ei godi o £1,440 i £1,520.

Cynnig 8 – Lwfans ardal allanol ar gyfer y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu

48. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu cyfradd y Lwfans Gofalwr yn ôl cyfradd y Mynegai ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant. Byddai hyn yn arwain at gynnydd i derfyn uchaf y lwfans o £1,520 i £1,670.

Pennod 6: Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

Cefndir

49. Mae Pennod 6 o'r Penderfyniad yn nodi bod gan yr Aelodau hawl i wneud cais am ad-daliad ar gyfer '*unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr*' o dan y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

50. Mae'r diffiniad hwn yn eang iawn ac mae'n cwmpasu costau swyddfa megis rhent, trethi a chyfleustodau, datblygu gwefan a chostau rhedeg, hysbysebu, ffonau symudol a threuliau cyfreithiol. Ers 2021-22, mae hefyd wedi talu am yr holl gostau sy'n ymwneud â deunydd ysgrifennu (gan gynnwys postio ac argraffu). Yn 2022-23, mae hefyd yn talu costau cyfathrebu ac ymchwil y gellid eu talu yn flaenorol drwy'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.

51. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon cytunodd y Bwrdd i gynyddu cyfanswm y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr 3.1 y cant (ffigur y Mynegai ar gyfer Medi 2021). Wrth ystyried unrhyw newid pellach i derfyn y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, cydnabu'r Bwrdd fod costau swyddfa, er enghraifft costau ynni a chostau amrywiol yr effeithir arnynt gan chwyddiant, wedi cynyddu'n sylweddol, fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei bwysu a'i fesur yn erbyn y ffaith bod gwariant yr Aelodau ar adeg cyhoeddi Penderfyniad 2022-23 yn awgrymu nad oedd unrhyw Aelod yn debygol o orwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

52. Ystyriodd y Bwrdd data diweddaraf y Mynegai a rhagolygon ar gyfer y cyfnod i ddod. Mae chwyddiant yn parhau i fod yn uchel. Er bod rhagolygon yn awgrymu y gallai ostwng dros y misoedd nesaf, mae'r hinsawdd bresennol yn parhau i fod yn ansicr.

Costau swyddfa a chyfleustodau

53. O ganlyniad i'r adborth a gafwyd yn ystod yr Adolygiad Blynyddol o Benderfyniad 2022-2023, yn adroddiad yr Adolygiad, dywedodd y Bwrdd:

Roedd y Bwrdd yn deall y pryderon a godwyd ynghylch cost cyfleustodau, a phenderfynodd adolygu costau ynni a chwyddiant yn fanwl. Yn ystod y flwyddyn, bydd y Bwrdd yn gofyn am dystiolaeth gan Aelodau, drwy'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau, o'r cynnydd mewn costau ynni yn swyddfeydd yr Aelodau er mwyn gwneud addasiadau mwy cywir a phriodol i'r lwfans i adlewyrchu'r costau hynny, gan nad yw'r rhagolygon yn glir ar hyn o bryd.

54. Mae'r Bwrdd wedi cael tystiolaeth gan Aelodau o gynnydd yng nghostau rhedeg eu swyddfeydd, gan gynnwys costau ynni. At hynny, nododd y cymorth arfaethedig gan Lywodraeth Cymru.

55. Mae'r Bwrdd wedi gwneud cynnydd untro o £1,000 i derfyn uchaf y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn y flwyddyn ariannol hon i gydnabod y pwysau uniongyrchol sy'n deillio o'r cynnydd sylweddol mewn costau byw, yn enwedig costau ynni. Mae'r taliad hwn yn anghyfunol ac ni fydd yn arwain at gynydd parhaol i derfyn uchaf y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

56. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu terfyn uchaf y lwfans Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn ôl cyfradd y Mynegai ym mis Medi 2022 gan 10.1 y cant, sy'n golygu cynnydd o £23,260 i £25,610 pan fo Aelod yn rhentu swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol ac o £9,500 i £ 10,460 pan fo Aelod yn cyflawni dyletswyddau etholaethol neu ranbarthol o'r cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel yn unig.

Asesiadau DSE ac offer gweithio gartref

Cefndir

57. Yn ystod pandemig COVID-19, roedd yn ofynnol i'r rheini a oedd yn gallu gweithio gartref wneud hynny. Ers hynny, mae'r cyfarwyddyd hwn wedi arwain at newid o Aelodau a staff sy'n gweithio'n bennaf o swyddfeydd etholaethol a Thŷ Hywel i gynnydd mewn gweithio gartref, gyda phatrymau gwaith/lleoliad yn amrywio o swyddfa i swyddfa.

58. Mae'r newid hwn mewn patrymau gwaith wedi arwain at yr angen i ystyried iechyd a diogelwch staff mewn mwy o leoedd. Fel cyflogwyr, mae gan Aelodau rai cyfrifoldebau cyfreithiol. Yn ôl gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: *'As an employer, you must protect your workers from the health risks of working with display screen equipment (DSE), such as PCs, laptops, tablets and smartphones.'*²

59. Mae'r templed polisi Iechyd a Diogelwch – a ddarparwyd gan Cymorth Busnes i Aelodau, i Aelodau ei fabwysiadu, yn dweud:

*Mae'r holl gyflogeion yn rhannu'r cyfrifoldeb am sicrhau amodau gwaith diogel. Rhaid i chi ofalu am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, dilyn rheolau diogelwch perthnasol, a dilyn cyfarwyddiadau i ddefnyddio offer yn ddiogel.*³

60. Gellir gwneud hawliadau am gost asesiadau DSE, a phrynu unrhyw offer y nodwyd ei fod yn angenrheidiol o ganlyniad i'r asesiad, o dan adran 6.6 o'r Penderfyniad, fodd bynnag nid yw hyn wedi'i nodi'n glir yn yr adran honno ar hyn o bryd.

² [Working safely with display screen equipment: Overview - HSE](#)

³ [2.5 CY Iechyd a Diogelwch v2021.1 \(sharepoint.com\)](#)

61. Gallai diwygiadau i adran 6.6 o'r Penderfyniad i amlygu y caiff Aelodau hawlio costau asesiadau DSE, ac unrhyw offer y nodwyd bod eu hangen er mwyn hwyluso gweithio'n ddiogel gartref, ei gwneud yn haws i asesiadau gael eu cynnal a gweithredu arnynt.

62. Ceisir barn hefyd ar ddileu'r gofyniad i fesurau lliniaru iechyd a diogelwch gael eu hargymell gan berson priodol a gymeradwyir gan y Prif Weithredwr a Chlerc. Mae'r gofyniad hwn yn gweithredu fel mesur rheoli i sicrhau bod y Swyddog Cyfrifyddu yn hyderus bod arian yn cael ei wario'n briodol. Bydd yr asesiadau DSE a wneir gan Staff Cymorth yn cael eu darparu gan gyflenwyr cydnabyddedig asesiadau o'r fath ac fel arfer nid oes angen i unrhyw argymhellion sy'n codi o'r asesiadau hyn gael eu gwirio gan berson arall.

Cynnig 10 – Asesiadau DSE

63. Mae'r Bwrdd yn cynnig:

- mewnosod datganiad yn adran 6.6 i egluro y gellir defnyddio'r lwfans iechyd a diogelwch y darperir ar ei gyfer yn adran 6.6 i dalu costau asesiadau DSE ac unrhyw offer a nodir fel bod yn angenrheidiol er mwyn hwyluso gweithio'n ddiogel gartref;
- ail-eirio adran 6.6 i gadarnhau nad oes rhaid i berson priodol a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr a Chlerc argymell prynu unrhyw offer y nodwyd ei fod yn ofynnol gan asesiad DSE (ar hyn o bryd mae adran 6.6 yn cyfyngu ar ad-dalu costau iechyd a mesurau diogelwch i'r rhai a argymhellir gan berson o'r fath).

Symleiddio darpariaethau iechyd a diogelwch

Cefndir

64. Cytunodd y Bwrdd i adolygu'r darpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch, i'w gwneud yn gliriach ac yn symlach.

65. Mae'r Bwrdd wedi ystyried newidiadau amrywiol i ddarpariaethau iechyd a diogelwch yn y Penderfyniad. Mae'r Bwrdd yn cynnig diwygio paragraff 6.6.1 i wneud yn glir y gellir hawlio unrhyw fesurau iechyd a diogelwch o dan yr adran hon, ni waeth ym mha leoliad y mae angen mesurau o'r fath. Ar hyn o bryd mae geiriad adran 6.6 yn cyfyngu ar hawliadau am gostau o'r fath i fesurau iechyd a diogelwch yn

'adeiladau' (neu '*premises*') yr Aelodau. Mae'r Bwrdd o'r farn bod 'adeiladau' yn gosod cyfyngiad a allai fod yn rhwystr i Aelodau allu cyflawni eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn effeithiol, ac felly mae'n gyfyngiad diangen ar y defnydd o'r arian y darperir ar ei gyfer yn adran 6.6.

66. Mae'r Bwrdd yn cynnig dileu'r term 'gwaith' (neu '*works*') ym mharagraff 6.6.1, er mwyn peidio â chyfyngu ar y costau y gellir eu hawlio i'r rheini ar gyfer gwaith adeiladu yn unig, a thrwy hynny ganiatáu i'r arian a ddarperir yn adran 6.6 gael ei ddefnyddio i dalu am gostau unrhyw fesurau iechyd a diogelwch y bernir eu bod yn angenrheidiol. Byddai hyn yn egluro mai bwriad y ddarpariaeth yw bodloni mathau eraill o ragofalon Iechyd a Diogelwch y dylai Aelodau eu hariannu i ddiogelu eu staff ac ymwelwyr, er enghraifft cyrsiau cymorth cyntaf, arwyddion, glanweithyddion dwylo, ac ati.

67. Er mwyn lleihau dryswch, cynigir bod geiriad y Penderfyniad yn cael ei wneud yn gliriach. Ar hyn o bryd mae gorgyffwrdd rhwng adran 6.6 (Iechyd a Diogelwch) a Phennod 3A (Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gallai cost ramp cadair olwyn wrth fynedfa swyddfa etholaeth gael ei thalu o'r naill ran neu'r llall o'r Penderfyniad.

Cynnig 11 – Egluro darpariaethau iechyd a diogelwch

68. Mae'r Bwrdd yn cynnig:

- aralleirio paragraff 6.6.1, yn enwedig dileu'r cyfeiriad at 'yn eu hadeiladau' er mwyn ei gwneud yn glir y gellir talu cost mesurau iechyd a diogelwch o'r cyllid y darperir ar ei gyfer yn adran 6.6 waeth beth fo'r lleoliad lle bernir bod y mesurau hynny'n angenrheidiol;
- disodli'r term 'gwaith' gyda'r term 'mesurau' ym mharagraff 6.6.1;
- mewnosod darpariaeth ychwanegol yn adran 6.6 i'w gwneud yn glir, lle bernir bod angen mesurau iechyd a diogelwch oherwydd anabledd, y gellir hawlio costau hyn yn erbyn Pennod 3A (Cymorth Ychwanegol).

Penodau 7 ac 8: Cymorth staffio ar gyfer Aelodau

Cyflogau staff cymorth

Cefndir

69. Cyflogir Staff Cymorth yr Aelodau ar un o bedwar band cyflog – Uwch Gyngorydd, Band 1, Band 2 neu Fand 3. Mae pob band cyflog yn cynnwys pum cyflog penodol, y cyfeirir atynt fel pwyntiau cyflog. Mae staff y grŵp yn cael eu cyflogi ar un o bum band cyflog sy'n adlewyrchu bandiau cyflog Staff Cymorth ynghyd â band cyflog Pennaeth Staff, eto gyda phum pwynt cyflog fesul band.

70. Mae'r Bwrdd yn pennu'r lwfans staffio cyffredinol sydd ar gael i bob Aelod at ddibenion cyflogi staff. Caiff cyflogau Staff Cymorth eu haddasu'n flynyddol ym mis Ebrill yn yr un modd â chyflogau Aelodau, h.y. yn unol â ffigur ASHE Cymru ar gyfer y flwyddyn flaenorol, yn amodol ar gap (tri y cant) a cholera (0 y cant).

71. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 (y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn cyflwyno'r cap a cholera), cododd cyflogau Staff Cymorth yn unol ag ASHE gan 4.4 y cant. Ar gyfer 2021-22 cynyddodd cyflogau Staff Cymorth 2.4 y cant yn unol ag ASHE. Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (2022-23), penderfynodd y Bwrdd gynyddu cyflogau Staff Cymorth gan yr uchafswm o dri y cant a ganiateir o dan y mecanwaith cap a nodir yn y Penderfyniad, yn lle'r ffigur ASHE o 0.4 y cant ar gyfer 2021 a fyddai wedi cymhwyso fel arall. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y cynnydd uchel mewn costau byw a brofwyd ar y pryd ac mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan Aelodau a Staff Cymorth yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad ar yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer eleni, a gwerth y rôl.

72. Mae'r Bwrdd wedi ystyried y pwysau chwyddiant sy'n effeithio ar staff, yn enwedig y cynnydd sydyn mewn prisiau ynni. At hynny, mae'r Bwrdd wedi ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolygon cyllido ar gyfer Llywodraeth Cymru, dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus a wnaed ar gyfer 2022-23 a hefyd cynigion cyflog sy'n cael eu hystyried a'u herio.

73. Maent hefyd wedi ystyried safbwyntiau a gyflwynwyd gan Aelodau a'u staff y dylid cynyddu cyflogau Staff Cymorth i adlewyrchu pwysigrwydd y rolau a gyflawnir ganddynt yn y Senedd, ac yn benodol i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw yn y farchnad lafur sydd ohoni.

- 74.** Mae'r Bwrdd wedi ystyried, ochr yn ochr â'r dadleuon hyn, fod codiadau i gyflogau Staff Cymorth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi rhagori ar godiadau cyflog a ddyfarnwyd mewn sectorau eraill a chan Gomisiwn y Senedd.
- 75.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod effaith y cynnydd mewn costau byw ar Staff Cymorth. I gydnabod hyn, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar daliad untro o £600 ar gyfer Staff Cymorth (pro rata) i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2023.
- 76.** Ar gyfer Penderfyniad 2023-24, mae'r Bwrdd wedi ystyried y ffordd orau o gadw cydbwysedd rhwng eu hymrwymiad (a gyflwynwyd ar ddechrau'r Chweched Senedd) i osod cyfyngiadau ar godiadau blynyddol mewn cyflogau sydd wedi'u cynllunio i leihau effaith amrywiadau blynyddol o ganlyniad i ansefydlogrwydd ffigur mynegai ASHE, yn erbyn yr angen i ymateb i bwysau chwyddiant yn yr economi.
- 77.** Nid yw'r Bwrdd yn cynnig unrhyw newid i'r Penderfyniad mewn perthynas â chyflogau Staff Cymorth Aelodau. Yn unol â'r ddarpariaeth fynegeio flynyddol – a nodir yn adran 7.3 o'r Penderfyniad ac y cytunwyd arni ar ddechrau'r Chweched Senedd – bydd cyflogau Staff Cymorth yn cynyddu dri y cant ym Mhenderfyniad 2023-24 (wele Atodiad 2).
- 78.** Mae'r Bwrdd wedi ystyried anghenion parhaus Staff Cymorth o ganlyniad i bwysau cynyddol oherwydd chwyddiant a chostau ynni uwch. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig cynyddu cyflogau Staff Cymorth 3 y cant ar gyfer 2023/24 gyda thaliad ychwanegol o £400 yn daladwy ym mis Ebrill 2023 i bawb mewn swydd ar 1 Ebrill 2023. Bydd y taliad hwn ar sail pro rata ar gyfer staff rhan-amser yn unol â'u horiau gwaith cytundebol ar 1 Ebrill 2023. Bydd yn cael ei dalu fel un taliad oni bai bod cyflogai Staff Cymorth yn gofyn am ei gael mewn rhandaliadau, neu'n gwrthod y taliad.
- 79.** Bydd y taliad yn cael ei gyfuno i gyflogau'r flwyddyn ganlynol ac wedi hynny, sy'n golygu y bydd pob pwynt cyflog ar bob band cyflog yn cynyddu £400 o 2024/25.
- 80.** Mae hyn yn seiliedig ar eu hasesiad o'r angen parhaus am gymorth ariannol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a gwybodaeth sy'n awgrymu y bydd chwyddiant wedi gostwng erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

81. Mae'r Bwrdd yn ymgynghori ar gynnydd o 3 y cant ar gyfer 2023/24 gyda thaliad ychwanegol o £400 yn daladwy ym mis Ebrill 2023 i bawb sydd mewn swydd ar 1 Ebrill 2023. Bydd y taliad hwn ar sail pro rata ar gyfer staff rhan-amser yn unol â'u horiau gwaith cytundebol ar 1 Ebrill 2023. Bydd yn cael ei dalu fel un taliad oni bai bod cyflogai Staff Cymorth yn gofyn am ei gael mewn rhandaliadau, neu'n gwrthod y taliad.

82. Bydd y taliad yn cael ei gyfuno i gyflogau'r flwyddyn ganlynol ac wedi hynny, sy'n golygu y bydd pob pwynt cyflog ar bob band cyflog yn cynyddu £400 o 2024/25.

Lwfans Gwariant Staffio

Cefndir

83. Ar hyn o bryd mae'r Lwfans Gwariant Staffio (y Lwfans GS) yn galluogi Aelodau i hawlio uchafswm o £110,570 at ddiben cyflogi staff. Mae hyn yn cyfateb yn fras i dri aelod o staff amser llawn. Fodd bynnag, nid yw'r Lwfans GS yn ddigon i ganiatáu cyflogi tri aelod o staff amser llawn ar frig y bandiau cyflog Uwch Gynghorydd, Band 1 a Band 2.

84. Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr angen am newidiadau i'r Lwfans GS gan ddwyn y canlynol i ystyriaeth:

- Sylwadau gan Aelodau;
- cymariaethau â lwfansau yn San Steffan a Senedd yr Alban, tra'n nodi nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol o ran eu cwmpas;
- gwybodaeth am natur a chymhlethdod Busnes y Senedd;
- nifer yr ymholiadau gwaith achos i Wasanaeth Ymchwil y Senedd; a
- phatrwm defnydd y Lwfans GS.

85. Yn benodol, ystyriodd y Bwrdd gynrychiolaethau gan Aelodau yn ystod y flwyddyn hon am fwy o gefnogaeth staffio a thystiolaeth a ddarparwyd ar newidiadau i faint a chymhlethdod llwyth gwaith yr Aelodau. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod cymhlethdod gwaith seneddol yr Aelodau wedi cynyddu.

86. Drwy gynyddu'r Lwfans GS fel bod Aelodau'n gallu cyflogi tri aelod o staff amser llawn ar lefelau Uwch Gynghorydd, Band 1 a Band 2 – ar frig eu graddfeydd cyflog – teimlwyd y byddai hyn yn helpu i alluogi mwy o hyblygrwydd o ran graddau staffio o fewn swyddfeydd yr Aelodau, ac o bosibl yn caniatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer dilyniant a chadw staff.

87. Mae'r Bwrdd yn cydnabod mai mater i'r Aelodau fydd penderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio eu Lwfans Gwariant Staffio, ac felly gellid ei ddefnyddio i gyflogi cyfuniadau eraill/mwy o staff rhan-amser ar raddfeydd is.

Cynnig 13 – Lwfans Gwariant Staffio yr Aelodau

88. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu lwfans staffio Aelodau ar gyfer 2023/24 i alluogi Aelodau i gyflogi tri aelod o staff amser llawn ar yr uchafswm cyflogau a delir ar gyfer rolau'r Uwch Gynghorydd, Band 1 a Band 2. Byddai hyn yn arwain at gynydd o £11,189 i Lwfans Gwariant Staffio pob Aelod.

Pennod 8: Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

Cefndir

89. Caiff arweinwyr Grwpiau'r pleidiau a gynrychiolir yn y Senedd ddefnyddio'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol (y Lwfans CBG) i gyflogi staff, gan gynnwys talu goramser, teithio a chynhaliath, ac ati, a phrynu offer swyddfa a chyfleusterau llogi.

90. Cyfanswm y Lwfans CBG sydd ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol yw £1,049,110. Rhennir y Lwfans CBG hwn rhwng pleidiau gwleidyddol ac Aelodau nad ydynt yn rhan o grŵp gwleidyddol yn y Senedd, yn seiliedig ar y fformiwla a nodir yn adran 8.2 o'r Penderfyniad.

91. Defnyddir y rhan fwyaf o'r Lwfans CBG hwn i dalu cyflogau staff y Grŵp. Yn hanesyddol, mae'r Bwrdd wedi addasu'r gyfran a wariwyd ar gyflogau staff y Grŵp yn flynyddol gan yr un cynnydd canrannol ag a gymhwyswyd i gyflogau Staff Cymorth yr Aelodau, gyda gweddill y Lwfans CBG wedi'i gynyddu yn unol â chyfradd y Mynegai a gymhwyswyd i lwfansau eraill yn y Penderfyniad. Mae'r mecanwaith 'cap a cholera' o dri y cant a sero y cant sy'n berthnasol i addasiadau blynyddol i gyflogau Staff Cymorth yr Aelodau hefyd yn berthnasol i addasiadau blynyddol i gyflogau staff y Grŵp.

92. Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, cynyddwyd 86.3 y cant o'r Lwfans CBG gan 3 y cant (h.y. yr un ganran y cynyddwyd cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ganddi), gyda'r 13.7 y cant sy'n weddill wedi cynyddu 3.1 y cant (ffigur y Mynegai ar gyfer Medi 2021).

93. Bydd y cynigion ar gyfer cynyddu cyflog Staff Cymorth ar gyfer 2023-24 yr un mor berthnasol i Staff Cymorth Grŵp (gweler uchod).

Cynnig 14 – Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

94. Mae'r Bwrdd yn cynnig:

- addasu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol (Lwfans CBG) gan ddefnyddio'r un mecanwaith ag a ddefnyddiwyd yn flaenorol h.y. cynyddu'r gyfran sy'n cael ei gwario ar gyflogau gan yr un ganran ag a fydd yn berthnasol i gyflogau Staff Cymorth yr Aelodau, a'r gyfran nad yw'n gyflog o'r Lwfans CBG gan yr un ganran ag a gymhwysir i lwfansau eraill sy'n gysylltiedig â'r Mynegai.
- Byddai hyn yn arwain at gynnydd o dri y cant i gyflogau staff a delir o dan y Lwfans hwn a chynnydd o 10.1 y cant, roedd cyfradd y Mynegai CPI ym mis Medi 2022 yn berthnasol i'r elfen o'r Lwfans CBG hwn sy'n ymwneud â chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogi staff. Byddai hyn yn golygu bod cwantwm cyffredinol y Lwfans yn cynyddu o £1,049,110 i £1,089,640
- Taliad ychwanegol o £400 yn daladwy ym mis Ebrill 2023 i bawb sydd mewn swydd ar 1 Ebrill 2023. Bydd y taliad hwn ar sail pro rata ar gyfer staff rhan-amser yn unol â'u horiau gwaith cytundebol ar 1 Ebrill 2023.

Atodiad 1: Cyflogau aelodau gyda chynnydd o dri y cant wedi'i gynhwysu

Mae'r tabl hwn yn dangos y cynnydd o dri y cant a gymhwyswyd i gyflogau Deiliaid Swyddi Ychwanegol a nodir ym mharagraff 3.1.4 o'r Penderfyniad

Cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol	Cyflog sylfaenol	Cyflog ychwanegol	Cyfanswm cyflog
Y Prif Weinidog	£69,958	£83,075	£153,033
Gweinidogion Cymru	£69,958	£39,350	£109,308
Y Cwnsler Cyffredinol	£69,958	£39,350	£109,308
Dirprwy Weinidogion	£69,958	£22,955	£92,913
Y Llywydd	£69,958	£44,816	£114,774
Y Dirprwy Lywydd	£69,958	£22,955	£92,913
Comisiynwyr y Senedd	£69,958	£14,210	£84,168
Cadeiryddion pwyllgorau (Uwch)	£69,958	£14,210	£84,168
Cadeiryddion pwyllgorau (Is)	£69,958	£9,467	£79,425
Aelodau'r Pwyllgor Busnes	£69,958	£9,467	£79,425
Arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw'n rhan o'r Llywodraeth	£69,958	£14,210 + £1,093 yr Aelod, hyd at £39,350	Amrediad o £87,447 i £109,308

Atodiad 2: Cyflogau Staff Cymorth gyda chynnydd o dri y cant wedi'i gymhwyso

Band	Pwynt cyflog 1	Pwynt cyflog 2	Pwynt cyflog 3	Pwynt cyflog 4	Pwynt cyflog 5
Pennaeth Staff	£41,846	£43,990	£46,247	£48,617	£51,113
Uwch-gynghorydd	£38,042	£39,990	£42,043	£44,196	£46,469
Band 1	£28,274	£30,805	£33,575	£36,598	£39,902
Band 2	£24,143	£26,556	£29,220	£32,152	£35,388
Band 3	£21,862	£23,555	£25,381	£27,353	£29,483

Atodiad 3: Polisi Preifatrwydd

Mae'r datganiad isod yn rhoi trosolwg cyffredinol o sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei chyflwyno. Mae ein polisi preifatrwydd llawn ar gael o'n gwefan yn: [Polisi Preifatrwydd \(bwrddtaliadau.cymru\)](#)

Y Bwrdd yw'r rheolwr data a bydd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn dibynnu ar y sail gyfreithiol bod prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er lles y cyhoedd Y dasg yw hwyluso ein gwaith a chyflawni ein swyddogaethau. Efallai y byddwn yn prosesu data personol categori arbennig oherwydd ei fod yn angenrheidiol am resymau er budd sylweddol i'r cyhoedd.

Pam rydym yn casglu gwybodaeth, a'r hyn rydym yn ei wneud â'r wybodaeth

Bydd yr hyn a gyflwynir gennych yn cael ei ddefnyddio i lywio ein penderfyniadau ar newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad. Bydd aelodau'r Bwrdd a'i ysgrifenyddiaeth yn gweld eich sylwadau yn llawn. Efallai y caiff rhywfaint o wybodaeth ei rhannu â Chomisiwn y Senedd wrth ystyried unrhyw newidiadau a sut i'w gweinyddu.

Caniateir i ni gyhoeddi eich sylwadau ar ein gwefan. Efallai y byddwn yn cyhoeddi rhannau o'ch sylwadau mewn dogfennau a gynhyrchir yn dilyn yr ymgynghoriad. Bydd sylwadau a gyhoeddir ar wefan y Bwrdd yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd. Rhowch wybod i ni os nad ydych am i'r hyn a gyflwynir gennych gael ei gyhoeddi.

Bydd ymatebion yn cael eu cadw ar systemau TGCh diogel Comisiwn y Senedd (sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft) hyd nes y byddwn wedi cwblhau'r ymgynghoriad ac am ddim hwy na chwe mis ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir i'r parth cyhoeddus yn aros yno. Ar ôl y cyfnod o chwe mis, byddwn yn cadw ymatebion yn ddienw.

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych.

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau, gan gynnwys yr hawl i ofyn am fynediad i'ch gwybodaeth. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn:

- i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch;

- i ni ddileu gwybodaeth amdanoch (o dan rai amgylchiadau);
- i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu o dan rai amgylchiadau; a
- bod eich gwybodaeth yn cael ei darparu i chi neu drydydd parti (eto, o dan rai amgylchiadau).

Manylion cyswllt

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, gofyn cwestiwn neu wneud cwyn, cysylltwch â'r Ysgrifenyddiaeth yn: **taliadau@senedd.cymru**.

Yn dilyn cwyn, os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon â'n hymateb, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma gyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire.
SK9 5AF.